
# Taflen Gofnodi'r Tomenni Glo

**Mae safleoedd tomenni glo yn cynnal amrywiaeth o gennau, mwsoglau a ffyngau, yn cynnwys rhai o rywogaethau prinnaf Cymru.** Allwch chi ddod o hyd i rai o'r rhywogaethau penodol hyn?





## Cen Cladonia
*(Cladonia spp.)*

### Mis Ionawr i fis Rhagfyr

Genws mawr o gen sy'n cynnwys rhywogaethau a elwir fel arfer yn 'cen cwpan yn ogystal â rhywogaethau mwy trechus y cyfeirir atynt fel 'mwsogl carw'. Mae coesau rhai rhywogaethau yn ddi-gangen ac yn tapro i bwynt, tra bod eraill flaen coch neu frown (e.e. Ffyn y Diafol). Mae cen *Cladonia* yn gyffredin ar y ddaear ymysg grug.



## Mwsogl Cors/Mawn
*(Sphagnum spp.)*

### Mis Ionawr i mis Rhagfyr

Mae'r mwsogl cors hyn yn tyfu'n agos at ei gilydd, gan ffurfio 'carpedi byw' sbonciog mewn lleoedd gwlyb. Maent yn amrywio mewn lliw o goch a phinc, i oren a gwyrdd.



## Amanita'r Gwybed
*(Amanita muscaria)*

### Mis Awst i fis Tachwedd

Caws llyffant traddodiadol, mae ganddo gap coch gyda smotiau gwyn a smotiau bach tebyg i ddafadennau a thagelli gwyn. Mae'n aml i'w weld dan goed bedw yn yr hydref.



## Ffwngws cap cwyr duol
*(Hygrocybe conica)*

### Mis Gorffennaf i fis Medi

Ffwngws glastir amrywiol gyda chapiau gwlyp, siap pîg sy'n troi'n ddu drostynt yn sydyn, fel arfer o ganol y cap. Gallant aros yn sefyll am wythnosau lawer.



## Ffwngws Crwst Glas
*(Terana caerulea)*

### Mis Ionawr i fis Rhagfyr

Ffwngws crwst tenau sy'n rhwydd ei adnabod oherwydd ei liw glas lachar. Mae i'w weld ar wahanol goed a pherthi yn cynnwys helyg ac eithin.

**Caiff y prosiect ei gyllido drwy Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru drwy raglen gwaith 'Gwent Fwyaf Gydnerth'.** Mae'r rhaglen yn parhau tan haf 2022 ac mae'n gweithio i sicrhau De Ddwyrain Cymru lle mae adferiad mewn natur a chymunedau cynaliadwy yn gwerthfawrogi eu tirluniau a bywyd gwyllt ac yn cymryd rhan ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

**Os hoffech rannu'r bywyd gwyllt yr ydych wedi ei weld, anfonwch eich cofnodion at Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBReC).**

A Resilient Greater Gwent

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government